



National
Trust

Coronafirws (Covid-19) Eich Tenantiaeth a Thaliad eich Rhent

Wrth i ledaeniad y Coronafirws (Covid-19) barhau, roeddwn i am eich cysuro y bydd lles ein tenantiaid, ein cefnogwyr a'n gweithwyr yn flaenllaw gyda phopeth y byddwn yn ei wneud. Fe barhawn ni i gael ein harwain gan gyngor y Llywodraeth ac rydyn ni'n dal yn gwbl ymroddedig i fod yn deg tuag at ein tenantiaid i gyd. Rydyn ni'n monitro datblygiadau'n agos ac fe wnawn addasu ein dull, wrth i'r argyfwng hwn barhau i esblygu. Fe wnawn rannu gwybodaeth fydd yn newid â chi ac rydyn ni wedi sefydlu rhai tudalennau pwrpasol ar ein gwefan i wneud hynny. Fe gaiff y tudalennau hyn eu diweddarau'n rheolaidd ac maen nhw i'w cael ar www.nationaltrust.org.uk/tenants. I'r rheiny ohonoch chi sy'n methu â chael mynediad i'r rhyngwyd dylech gysylltu â'ch cyswllt Rheoli Stad arferol, ac fe all eich helpu.

Ar hyn o bryd mae mwyafrif ein staff yn dal i weithio, rhai o'n swyddfydd a rhai o bell. Rydw i am eich sicrhau y gallwch barhau i gysylltu â ni fel arfer, ac fe wnawn barhau i gyflenwi'r lefelau gwasanaeth uchel y byddwch yn eu disgwyl, yn naturiol. Er hynny, rydyn ni i gyd yn gorfod addasu ein disgwyliadau o'r hyn sy'n bosib, o ystyried y cyfyngiadau rydyn ni'n gweithio â nhw i reoli'r firws hwn. Mae gennym ni bolisiau mewnol cadarn i sicrhau fod ein staff a'n contractwyr â gwybodaeth ddiweddar sy'n ymdrin â phresenoldeb mewn eiddo, cyfarfodydd a rhyngweithiad â chi, i isafu risgiau.

Rydyn ni'n cydnabod fod lledaeniad parhaus Covid-19 yn debygol o beri achosion o galedi ariannol ymysg rhai ohonoch chi sy'n methu â mynd i'r gwaith neu weithredu eich busnesau. Rydyn ni wedi rhoi canllawiau i'r holl staff Rheoli Stad a fydd yn gallau siarad â chi os bydd eich amgylchiadau'n newid ac os byddwch yn wynebu anawsterau o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19. Ni chynhelir unrhyw adolygiadau newydd o ran rhenti yn ystod 2020.

Wrth i mi ysgrifennu'r llythyr hwn, rydyn ni'n disgwyl i'r Llywodraeth ddarparu canllawiau i Landlordiaid ac rydyn ni'n disgwyl i gyfres o fesurau gael eu cyflwyno i helpu tenantiaid sy'n methu â thalu eu rhent. Fe fyddwn ni'n dilyn y canllawiau hyn ac roeddwn am sicrhau pa rai bynnag ohonoch chi sy'n poeni am eich cartrefi neu safleoedd eich busnes, fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn deall y pwysau y gallech fod yn ei ddioddef yn ystod yr argyfwng hwn. Cysylltwch â'r Rheolwr Stad lleol yn y lle cyntaf, os gwelwch yn dda, i drafod eich amgylchiadau ac fe wnân nhw weithio â chi i gytuno ar ffordd ymlaen. Os bydd eich cyswllt arferol i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, yna fe fyddan nhw wedi enwebu cydweithiwr i chi gael eich cysylltu ag o.

Rydyn ni'n fwriadol, yn y cam hwn, yn peidio â mabwysiadu polisi cyffredinol ar 'wyliau rhent' oherwydd bod amgylchiadau pawb yn wahanol ac fe wnawn ystyried eich anghenion sbesiffig chi. Fodd bynnag, gydag iechyd y rheiny rydyn ni'n eu caru i boeni amdano, nid wyf am i chi fod yn bryderus am eich cartref neu safle eich busnes. Fe sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer pawb am byth ac wrth i ni i gyd weithio gyda'n gilydd, fe ddown ni drwy'r amser hynod heriol hwn.

Gyda dymuniadau gorau,

Hilary McGrady Cyfarwyddwr Cyffredinol

National Trust Heelis
Kemble Drive,
Swindon
Wiltshire
SN2 2NA
Tel: +44 (0)1793 817400
Fax: +44 (0)1793 817401
www.nationaltrust.org.uk

President: HRH The Prince of Wales
Chair: Tim Parker
Director-General: Hilary McGrady